

Trosolwg PDC o Ddemograffeg Myfyrwyr 2023-2024

Cynnwys

Trosolwg o broffil myfyrwyr PDC	3
Tabl 1 Cyfanswm y Myfyrwyr ar draws Lefel Astudio	3
Trosolwg o ddemograffeg myfyrwyr PDC 2023-2024	4
Oedran.....	4
Ffigur 1 - Oedran myfyrwyr PDC.....	4
Anabledd.....	5
Ffigur 2 - Datganiad cyfran y myfyrwyr yn ôl anabledd	5
Hunaniaeth Rhywedd	6
Ffigur 3 – Hunaniaeth Rhywedd Myfyrwyr.....	6
Cenedligrwydd.....	6
Tabl 11 yn dangos y 10 cenedligrwydd mwyaf cyffredin ymhlith myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar draws lefelau astudio israddedig ac ôl-raddedig	6
Hil	7
Ffigur 4 – Ethnigrwydd y boblogaeth myfyrwyr (israddedig ac ôl-raddedig)	7
Ffigur 5 – Ethnigrwydd y boblogaeth myfyrwyr, wedi'i rannu yn ôl lefel astudio ..	8
Crefydd a Chred	10
Ffigur 6 – Crefydd a Chred myfyrwyr yn PDC.....	10
Rhyw.....	10
Ffigur 7 – Rhyw myfyrwyr Israddedig yn ôl Cyfadran.....	10
Ffigur 8 – Rhyw myfyrwyr Ôl-raddedig yn ôl Cyfadran.....	11
Cyfeiriadedd Rhywiol	11
Ffigur 9 – Cyfeiriadedd rhywiol yr holl fyfyrwyr	11
Mewnwelediadau Allweddol.....	12

Trosolwg o broffil myfyrwyr PDC

Mae'r Dyletswyddau Penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o amrywiaeth y boblogaeth myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023 i 2024.

Mae'r wybodaeth ystadegol yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan 15,063 o fyfyrwyr (ar gampws) a oedd wedi cofrestru ym mis Medi 2023 ac mae'n cwmpasu pob nodwedd warchodedig. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd 10,007 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau israddedig; 5,003 wedi'u cofrestru ar gyrsiau ôl-raddedig a 53 wedi'u cofrestru ar gyrsiau cyn-astudio. Byddai'r 53 o fyfyrwyr hyn yn mynd ymlaen i ddilyn naill ai cyrsiau israddedig neu ôl-raddedig fel y dangosir yn Nhabl 1.

Noder:

- Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi defnyddio adroddiadau ystadegau myfyrwyr AdvanceHE ond ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon nid oedd adroddiad ystadegau myfyrwyr AdvanceHE 2024 wedi'i gyhoeddi oherwydd problemau'n ymwneud â chasglu data HESA. Disgwylir i adroddiad ystadegau myfyrwyr AdvanceHE gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2025.
- Cyfeirir at gategoriâu anabledd HESA drwy gydol yr adroddiad hwn.
- Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg yn hytrach dadansoddiad manwl o ddata myfyrwyr

Tabl 1 Cyfanswm y Myfyrwyr ar draws Lefel Astudio


Lefel Astudio		2023 - 2024
Israddedig	Nifer	10007
	% o gyfanswm y myfyrwyr	66.43%
Ôl-raddedig	Nifer	5003
	% o gyfanswm y myfyrwyr	33.21%
	Nifer	53

Cyrsiau Cyn- Astudio	% o gyfanswm y myfyrwyr	0.35%
Cyfanswm		15063

Trosolwg o ddemograffeg myfyrwyr PDC 2023-2024

Oedran

Ffigur 1 - Oedran myfyrwyr PDC



Oedran

- 18-25 oed: 7,980 o fyfyrwyr (y categori mwyaf)
- 26-35 oed: 4,309 o fyfyrwyr
- 36-45 oed: 1,992 o fyfyrwyr
- 46-55 oed: 637 o fyfyrwyr
- 56-65 oed: 138 o fyfyrwyr
- Dros 66 oed: 7 myfyriwr

Cyfanswm y boblogaeth myfyrwyr: 15,063 o fyfyrwyr

Mewnwelediadau Allweddol o ran oedran:

1. Oedolion Ifanc (18-25) sy'n Dominyddu

- Mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am fwy na hanner cyfanswm y boblogaeth myfyrwyr, sy'n awgrymu bod presenoldeb cryf o fyfyrwyr israddedig traddodiadol.

2. Cynrychiolaeth Myfyrwyr Aeddfed (26-45)

- Y grŵp oedran 26-35 (4,309 o fyfyrwyr) yw'r ail fwyaf, sy'n dangos bod nifer sylweddol o fyfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr sy'n newid gyrfa.
- Mae presenoldeb nodedig o fyfyrwyr 36-45 oed hefyd (1,992 o fyfyrwyr) sydd, o bosibl, yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol sy'n dychwelyd ar gyfer addysg bellach.

3. Myfyrwyr Hŷn (46+)

- Mae'r niferoedd yn lleihau'n sylweddol y tu hwnt i 45 oed, gyda dim ond 637 o fyfyrwyr 46-55 oed, a 138 o fyfyrwyr 56-65 oed.
- Dim ond 7 myfyriwr sydd dros 66 oed, sy'n dangos bod cyfranogiad isel iawn ymhlith pobl sydd wedi ymddeol neu ddysgwyr gydol oes.

Anabledd

Ffigur 2 - Datganiad cyfran y myfyrwyr yn ôl anabledd

Anabledd (Categoriâu HESA)	% o'r boblogaeth myfyrwyr
Nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu sydd heb ei restru uchod	1.14%
Dall neu nam gweledol na ellir ei gywiro â sbectol	0.21%
B/byddar neu â nam ar y clyw	0.57%
Cyflwr datblygiadol ers plentyndod	0.15%
Gwybodaeth ddim ar gael	0.38%
Gwahaniaeth dysgu	9.27%
Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor	1.77%
Cyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl	6.57%
Dim Anabledd	74.65%
Nam Corfforol	0.82%
Gwell gennyf beidio â dweud	3.06%
Cyflyrau cymdeithasol/cyfathrebu	1.38%
Gwybodaeth ddim ar gael	0.02%

Cynrychiolaeth o ran Anabledd

- Nododd 74.65% o fyfyrwyr nad oes ganddynt unrhyw anabledd.
- Y categori anabledd a nodwyd fwyaf oedd gwahaniaethau dysgu (9.27%), ac wedyn cyflyrau iechyd meddwl (6.57%).
- Nododd canrannau llai fod ganddynt salwch hirdymor (1.77%), cyflyrau cymdeithasol/cyfathrebu (1.38%), a namau corfforol (0.82%).
- Mae'r data hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a dysgu ar y campws.

Hunaniaeth Rhywedd

Ffigur 3 – Hunaniaeth Rhywedd Myfyrwyr

	% Ydy - Mae fy hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhywedd a bennwyd i mi pan ges i fy ngeni	% Nac ydy - Mae fy rhywedd wedi'i ailbennu ers i mi gael fy ngeni	% Gwell gennyf beidio â dweud	% Data ar goll
Cyfansymiau	96.86%	1.29%	1.70%	0.15%

Hunaniaeth Rhywedd

- Roedd 96.86% yn uniaethu â'r rhywedd a bennwyd iddynt pan gawsant eu geni.
- Nododd 1.29% fod eu rhywedd wedi'i ailbennu.
- Roedd yn well gan 1.70% beidio â datgelu eu hunaniaeth rhywedd.
- Er bod y ganran y mae eu rhywedd wedi'i ailbennu yn isel, mae mesurau cynhwysiant rhywedd yn dal i fod yn hanfodol.

Cenedligrwydd

Tabl 11 yn dangos y 10 cenedligrwydd mwyaf cyffredin ymhlith myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar draws lefelau astudio israddedig ac ôl-raddedig

Cenedligrwydd	Israddedig	Ôl-raddedig
---------------	------------	-------------

Y Deyrnas Unedig	8161	1738
Nigeria	197	1487
Sri Lanka	173	417
Bangladesh	142	510
India	110	305
Gwlad Pwyl	108	6
Pacistan	106	196
Malaysia	94	88

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd myfyrwyr o 117 o wahanol genhedloedd yn astudio ym Mhrifysgol De Cymru. Mae'r tabl uchod yn dangos y 8 poblogaeth fwyaf.

Hil

Ffigur 4 – Ethnigrwydd y boblogaeth myfyrwyr (israddedig ac ôl-raddedig)

Cyfadr an	Gwyn		Du ac Ethnig Leiafrifol		Arall		Gwrthodwyd / Anhysbys	
	Nifer y Myfyrw yr	% Nifer y Myfyrw yr	Nifer y Myfyrwy r	% Nifer y Myfyrw yr	Nifer y Myfyrw yr	% Nifer y Myfyrw yr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrw yr
FBCI	2276	44.20%	2704	52.52%	55	1.07%	114	2.21%
FCES	1971	54.80%	1467	40.78%	28	0.78%	131	3.64%
FLSE	5055	80.70%	1056	16.86%	33	0.53%	120	1.92%

Ffigur 5 – Ethnigrwydd y boblogaeth myfyrwyr, wedi'i rannu yn ôl lefel astudio

Lefel y Cwrs	Gwyn		Du ac Ethnig Leiafrifol		Arall		Gwrthodwyd / Anhysbys	
	Nifer y Myfyrwr yr	% Nifer y Myfyrwr yr	Nifer y Myfyrwr yr	% Nifer y Myfyrwr yr	Nifer y Myfyrwr yr	% Nifer y Myfyrwr yr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr
Israddedig	7636	76.31 %	2073	20.72%	64	0.64%	234	2.34%
Ôl-raddedig	1666	33.30 %	3154	63.04%	52	1.04%	131	2.62%

Hil

Mewnwelediadau o Ffigur 4 – Ethnigrwydd y Boblogaeth Myfyrwyr (israddedig ac ôl-raddedig) yn ôl Cyfadrn:

Amrywiadau o ran Dosbarthiad Ethnig yn ôl Cyfadrn

FBCI (Cyfadrn Busnes a'r Diwydiannau Creadigol)

Myfyrwyr du ac ethnig leiafrifol yw'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr, sef **52.52%**.

Mae myfyrwyr gwyn yn cyfrif am **44.20%**, sy'n is nag mewn cyfadrannau eraill.

FCES (Cyfadrn Cyfrifiadura, Peirianeg a Gwyddoniaeth):

Myfyrwyr gwyn yw'r mwyafrif (**54.80%**), ond mae nifer sylweddol o fyfyrwyr du ac ethnig leiafrifol o hyd (**40.78%**).

FLSE (Cyfadrn Gwyddorau Bywyd ac Addysg):

Mae mwyafrif mawr o fyfyrwyr gwyn (**80.70%**), gyda chanran llawer is o fyfyrwyr du ac ethnig leiafrifol (**16.86%**).

Mae Cynrychiolaeth Myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol ar ei Huchaf yn FBCI:

FBCI sydd â'r boblogaeth ethnig amrywiol fwyaf; myfyrwyr du ac ethnig leiafrifol yw mwyafrif y myfyrwyr.

FLSE sydd â'r gynrychiolaeth isaf o fyfyrwyr du ac ethnig leiafrifol, sy'n dangos bod bwlbwls posibl o ran amrywiaeth.

Gwrthodwyd/Ethnigrwydd Anhysbys:

Ar draws cyfadrannau, mae canran y myfyrwyr na wnaethant ddatgelu eu hethnigrwydd yn parhau'n isel (~2-3%).

FCES sydd â'r ganran uchaf o fyfyrwyr sy'n gwrthod datgelu ethnigrwydd (**3.64%**), sydd ychydig yn uwch na'r cyfadrannau eraill.

Mewnwelediadau o Ffigur 5 – Ethnigrwydd y Boblogaeth Myfyrwyr yn ôl Lefel Astudio:

Myfyrwyr Israddedig:

Mae myfyrwyr gwyn yn dominyddu ar **76.31%**.

Mae myfyrwyr du ac ethnig leiafrifol yn cyfrif am **20.72%**, sy'n dangos bod cymhareb amrywiaeth is o gymharu â'r dadansoddiad cyffredinol o gyfadrannau.

Mae canran y myfyrwyr yn y categori "Arall" yn isel iawn (**0.64%**).

Myfyrwyr Ôl-raddedig:

Gwrthdroad sylweddol o'r duedd a welir o ran myfyrwyr israddedig.

Myfyrwyr du ac ethnig leiafrifol yw'r mwyafrif ar **63.04%**, tra bod myfyrwyr gwyn yn cyfrif am **33.30%** yn unig.

Mae hyn yn awgrymu bod rhaglenni ôl-raddedig yn denu corff myfyrwyr mwy ethnig amrywiol.

Pethau Allweddol i'w Nodi:

Mae Cynrychiolaeth o Fyfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol yn Uwch mewn Astudiaethau Ôl-raddedig:

Mae canran y myfyrwyr du ac ethnig leiafrifol yn cynyddu'n sylweddol ar lefel ôl-raddedig o gymharu â lefel israddedig.

FLSE yw'r Gyfadrannau Leiaf Amrywiol:

Gyda dros **80% o fyfyrwyr gwyn**, FLSE yw'r gyfadrannau leiaf ethnig amrywiol.

FBCI yw'r Gyfadrannau Fwyaf Amrywiol:

Gyda **52.52% o fyfyrwyr du ac ethnig leiafrifol**, y gyfadrannau hon yw'r unig un lle mae mwy o fyfyrwyr du ac ethnig leiafrifol na myfyrwyr gwyn.

Crefydd a Chred

Ffigur 6 – Crefydd a Chred myfyrwyr yn PDC

Crefydd	Nifer y Myfyrwyr	% o'r Cyfanswm
Bwdhaidd	517	3.43%
Cristnogol	4012	26.63%
Hindŵaidd	395	2.62%
Iddewig	14	0.09%
Mwslimaidd	1821	12.09%
Sicaidd	23	0.15%
Unrhyw grefydd neu gred arall	257	1.71%
Dim crefydd	7116	47.24%
Ddim ar gael	19	0.13%
Gwell gennyf beidio â dweud	889	5.90%

Crefydd a Chred

- Nododd 47.24% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt unrhyw grefydd.
- Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf cyffredin (26.63%), ac wedyn Islam (12.09%).
- Mae canrannau bach o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn Hindŵaidd (2.62%), yn Fwdhaidd (3.43%), yn Iddewig (0.09%), ac yn Sicaidd (0.15%).
- Mae'n well gan 5.90% beidio â datgelu eu credoau crefyddol.

Rhyw

Ffigur 7 – Rhyw myfyrwyr Israddedig yn ôl Cyfadran

Cyfadran	Benywaidd		Gwrywaidd		Arall		Gwrthodwyd gwybodaeth	
	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr
FBCI	1283	45.02%	1472	51.65%	43	1.51%	52	1.82%
FCES	734	28.50%	1773	68.85%	17	0.66%	51	1.98%
FLSE	3068	66.96%	1481	32.32%	15	0.33%	18	0.39%

Ffigur 8 – Rhyw myfyrwyr Ôl-raddedig yn ôl Cyfadran

Cyfadran	Benywaidd		Gwrywaidd		Arall		Gwrthodwyd gwybodaeth	
	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr	Nifer y Myfyrwyr	% Nifer y Myfyrwyr
FBCI	1224	53.24%	1062	46.19%	-	-	8	0.35%
FCES	300	29.35%	711	69.57%	-	-	9	0.88%
FLSE	1296	77.05%	361	21.46%	-	-	19	1.13%

Rhyw

Israddedig

- FBCI: Cynrychiolaeth gytbwys o fyfyrwyr gwrywaidd (51.65%) a benywaidd (45.02%).
- FCES: Wedi'i dominyddu gan fyfyrwyr gwrywaidd (68.85%), gyda dim ond 28.50% o fyfyrwyr benywaidd.
- FLSE: Wedi'i dominyddu gan fyfyrwyr benywaidd (66.96%).

Ôl-raddedig

- Mae'r duedd yn debyg, gyda mwy o fyfyrwyr benywaidd (77.05%) yn FLSE a myfyrwyr gwrywaidd yn dominyddu yn FCES (69.57%).

Cyfeiriadedd Rhywiol

Ffigur 9 – Cyfeiriadedd rhywiol yr holl fyfyrwyr

Cyfeiriadedd Rhywiol	% Myfyrwyr PDC
Deurywiol	6.44%
Hoyw/Lesbiaidd	2.47%
Heterorywiol/Syth	77.44%
Cyfeiriadedd Rhywiol Arall	1.42%
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	12.11%
Gwybodaeth Ddim ar Gael	0.12%

Cyfeiriadedd Rhywiol

- Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn ystyried eu hunain yn heterorywiol (77.44%).

- Mae 6.44% yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol, 2.47% yn ystyried eu hunain yn hoyw/lesbiaidd, ac 1.42% yn ystyried bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol arall.
- Mae'n well gan 12.11% beidio â datgelu'r wybodaeth hon, gan ddangos bod angen mwy o gynhwysiant a mannau diogel.

Mewnwelediadau Allweddol

- Mae cymorth iechyd meddwl yn hanfodol, gan fod 6.57% o fyfyrwyr wedi nodi heriau iechyd meddwl.
- Mae cynrychiolaeth du ac ethnig leiafrifol yn uwch ar gyrsiau ôl-raddedig o gymharu â rhaglenni israddedig.
- Mae anghydbwysedd rhywedd mewn meysydd STEM (FCES), a gall fod angen rhaglenni allgymorth wedi'u targedu.
- Mae'n well gan gyfran sylweddol (12.11%) o fyfyrwyr beidio â datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol, gan amlygu pwysigrwydd cynhwysiant LHDTC+.